

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 15.45 ar 30 MEDI 2020, trwy Zoom.

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (o gofnod 7.3); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Ffion Jones; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Ms Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Victoria Wright; Dr Sarah Wydall, a'r Athro Reyer Zwiiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Simon Cox; Yr Athro Andrew Evans; Yr Athro Nigel Holt; Dr Thomas Jansen; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; a Dr Anoush Simon.

Yn gweinyddu: Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd.

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Dr Andrew Davies.

1. **MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR**

1. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Peter Thomas, gynt o'r Adran Hanes a Hanes Cymru; a
2. Dr David Wilman, cyn-Ddarllenydd yn y Gwyddorau Amaethyddol.

2. Pnawn Strategaeth y Senedd

1. Cyn y cyfarfod ffurfiol cynhaliodd y Senedd Bnawn Strategaeth llwyddiannus trwy ddefnyddio llwyfan ar-lein Zoom. Roedd copïau o'r holl gyflwyniadau wedi eu rhoi ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.
2. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cyflwyno diweddariad manwl i'r aelodau yn y Pnawn Strategaeth, ac felly ni fyddai'n cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod ffurfiol y Senedd.

3. Covid-19

Cyn cyfarfod ffurfiol y Senedd, rhoddodd yr Is-Ganghellor wybodaeth i'r aelodau am ymateb parhaus y Brifysgol i argyfwng Covid-19, gan gynnwys y bwriad i aildechrau dysgu wyneb-yn-wyneb o fewn y dyddiau nesaf.

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2020 (SEN2021-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar gywiro mân wallau teipio (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2021-004).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2021-005).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar achosion ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle cafodd materion eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr Is-Ganghellor oedd:
 1. Newidiadau i Siarter y Myfyrwyr, i sicrhau ei fod yn cyd-daro'n llwyr â chanllawiau'r Cyngor Cyllido;
 2. Newidiadau i'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, yn ôl argymhelliad y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2020; a

3. Newidiadau i'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr, yn ôl argymhelliad y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2020.

6. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

7. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2021-006).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ar 10 Gorffennaf ac 16 Medi 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Rheoliadau a Chonfensiynau Gradd

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf 2020, argymhellodd y Bwrdd Academaidd y dylai'r Senedd gymeradwyo i'r radd MProf gael ei chynnwys yn gymhwyster gadael posibl i fyfyrwyr a gofrestrwyd am radd DProf. Ni wnaed y ddarpariaeth hon wrth gymeradwyo'r rhaglen DProf yn wreiddiol oherwydd y prinder amser ar gael i sefydlu'r cynllun.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo i'r radd MProf gael ei chynnwys yn gymhwyster gadael posibl i fyfyrwyr a gofrestrwyd am radd DProf (**GWEITHREDU**: Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).
3. Covid-19: Trefniadau Monitro Presenoldeb

Roedd Gwasanaethau Gwybodaeth yn datblygu system awtomataidd a fyddai'n tynnu sylw staff os yw myfyriwr yn cyrraedd trothwy arwyddocaol o ran presenoldeb. Roedd integreiddio Mirosoft Teams â system fonitro presenoldeb bresennol y Brifysgol hefyd yn cael ei archwilio.

8. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2021-015).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd Bwrdd y Ddarpariaeth Gydwethrediadol ar 06 Gorffennaf a 18 Medi 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Cylch Gorchwyl

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2020, roedd Bwrdd y Ddarpariaeth Gydwethrediadol wedi argymhell y dylai'r Senedd gytuno i fân ddiwygiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi eu nodi yn adroddiad y Dirprwy Gofrestrydd.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig (**GWEITHREDU**: Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd).
3. Adroddiad Cloriannu Perfformiad Partner ar gyfer Brickfields

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Cynorthwyol Sarah Jones (SEN2021-007).

NODWYD

1. Byddai'r Cytundeb Rhyddfraint a lofnodwyd rhwng y Brifysgol a Choleg Brickfields Asia yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2020. I sicrhau bod partner yn dal i fod yn addas, caiff ymarferiad Cloriannu Perfformiad Partner ei gynnal cyn i'r Memorandwm o Gytundeb ddod i ben, i fod yn sail i unrhyw adnewyddiad.
2. Atodwyd yr adroddiad cloriannu a gynhyrchwyd ynglŷn â Choleg Brickfields Asia i adroddiad y Cofrestrydd Cynorthwyol. Yn seiliedig ar yr adroddiad hwn, roedd y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 06 Gorffennaf 2020 wedi argymhell na ddylai'r Brifysgol adnewyddu ei Chytundeb Rhyddfraint. Cafodd hyn ei gadarnhau ers hynny gan Weithrediaeth y Brifysgol ar 14 Gorffennaf 2020.
3. Ers hynny, roedd y Brifysgol wedi rhoi gwybod i'r partner am y canlyniad, ac yn awr roeddent yn y cyfnod o ddydsu'r myfyrwyr a oedd ar ôl ar gynlluniau.

9. ADRODDIAD O BWYLLGOR MOESeg YMCHWIL Y BRIFYSGOL

1. Gweithdrefnau Moeseg ledled y Brifysgol

Yn ei gyfarfod ar 09 Gorffennaf 2020, roedd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi trafod sut y gallai'r Brifysgol hwyluso rhoi ystyriaeth i gwestiynau moesegol ehangach sy'n berthnasol i'r Brifysgol. Roed cyllid wedi'i sicrhau i benodi Swyddog Uniondeb i arwain wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau perthnasol.

10. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2021-008);
2. Gwobrau Academaidd a ddyfarnwyd yn ystod 2019-20 (SEN2021-009);
3. Grantiau Ymchwil (SEN2021-010) a;

4. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2021-011).

NODWYD

5. Gwobrau Academaidd a ddyfarnwyd yn ystod 2019-20

Gofynnwyd am ddiweddariad ar sefyllfa Gwobr Goffa David Trotter - gofynnir am wybodaeth ac adrodd yn ôl fel mater yn codi yn y cyfarfod nesaf (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol).

6. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

11. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2021-012):

1. Y Bwrdd Academaidd (10 Gorffennaf; ac 16 Medi 2020);
2. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (06 Gorffennaf a 18 Medi 2020) a;
3. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (09 Gorffennaf 2020)

NODWYD

4. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

12. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL.

1. Graddau er Anrhydedd

Ni fu'n bosibl i'r Brifysgol gynnal unrhyw seremoni raddio ym mis Gorffennaf 2020 oherwydd argyfwng Covid-19. Byddai Graddau er Anrhydedd y Brifysgol a fyddai wedi eu cyflwyno eleni, yn cael eu rhoi felly yn ystod seremonïau graddio 2021. Oherwydd hyn, ni fydd y Brifysgol yn gwahodd enwebiadau newydd ar gyfer graddau er anrhydedd yn 2021. Cynhelir y cylch enwebiadau nesaf felly yn yr hydref 2021.